Taflen Waith

CYFRIF ARIAN

Edrychwch yn ofalus

Mae pen y Frenhines ar flaen ein darnau arian, ac mae llythyrau o gwmpas yr ymyl sy'n nodi'r dyddiad y gwnaed y darn arian.

Ystyr y llythrennau hyn ar yr ymyl yw'r geiriau Lladin Dei Gratia Regina Fidei Defensor, sy'n golygu 'Trwy Ras Duw, Brenhines, Amddiffynnydd y Ffydd'.

Dyddiad y darn arian

Enw ein Brenhines, Elizabeth II

Mae sawl dyluniad gwahanol ar gefn ein darnau arian.

Draig Cymru

Porthcwlis

Y Rhosyn Tuduraidd gyda'r goron Brydeinig ar ei ben

Llew Lloegr

Britannia

Ysgallen yr Alban

3 Pluen Estrys

Casglwch ddarnau arian gwahanol ynghyd

- Beth am weld a allwch ddod o hyd i ddyluniadau eraill?
- Rhowch ddalen o bapur dros eich darnau arian a'u rhwbio gyda chreon cŵyr neu greon pensil meddal - a byddwch yn gallu gweld y dyluniad ar eich papur - rhowch enwau'r darnau arian wrth ymyl pob un.
- Gwnewch restr o'r dyluniadau ar gyfer y gwerthoedd gwahanol o ddarnau arian.

Darparwyd gan Nationwide – ar gael ar www.NationwideEducation.co.uk